**CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)**

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl, Ddydd Iau, 26 Chwefror 2004 am 2.00 p.m.

**PRESENNOL**

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorwyr M.M. Jones (Cadeirydd), B. Blakeley, S. Drew, K.N. Hawkins a W. Roberts

**Yn cynrychioli Cyd-bwyllgor Negodi Athrawon Sir Ddinbych**

J. Hannam a M.B. Lloyd

**Yn cynrychioli enwadau crefyddol**

P. Spiers

**HEFYD YN BRESENNOL**

Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol a Swyddog Gweinyddol (K.E. Jones)

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

T. Bryer, M. Colbert, H. Ellis, M. Evans, S. Harris, J. Kirkham a'r Cynghorwyr N. Hugh-Jones a R. Ll. Williams.

Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes a'r Pennaeth Gwasanaethau Addysg wedi cyflwyno eu ymddiheuriadau hefyd. Dywedodd y Cadeirydd, oherwydd y tywydd gwael, na fyddai'n bosibl i gyfieithydd fod yn bresennol yn y cyfarfod i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

**CWORWM**

Cynghorodd y Cadeirydd nad oedd cworwm yn y cyfarfod, a phenderfynodd yr aelodau fwrw ymlaen â'r cyfarfod ar y sail na fyddai unrhyw benderfyniadau ffurfiol yn cael eu gwneud.

**CROESO**

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i groesawu aelodau a swyddogion i'r cyfarfod ac estynnwyd croeso arbennig i Mr. Glyn Jones, aelod o'r cyhoedd a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Roedd Mr. Jones yn cysgodi'r Cynghorydd S. Drew yr wythnos hon wrth iddi gyflawni ei rôl fel cynghorydd sir.

**MYFYRDOD TAWEL**

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig funudau o fyfyrdod tawel.

**1029 MATERION BRYS**

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, datganodd y Cadeirydd ei bod yn bwriadu gynnwys yr eitemau a ganlyn, a oedd yn galw am sylw brys, i'w trafod:-

(i) Christian Uganda Relief – ymweliad gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG

(ii) Enwebu cynrychiolwyr i'r hethol i Bwyllgor Gwaith CYSAG Cymru

**1030 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2003 (a ddosbarthwyd yn flaenorol), a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 20 Ionawr 2004.

**Materion yn codi**

Eitem Rhif 3 – AG yn Ysgol Uwchradd Prestatyn – Nododd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG ei fod yn gobeithio trefnu i athro/athrawes ysgol gynradd gyflwyno cyflwyniad tebyg i'r aelodau yn y cyfarfod

CYSAG nesaf. Adroddodd Mr. P. Spiers am y croeso cynnes a gafodd yn y diwrnod agored a gynhaliwyd yn Ysgol Uwchradd Prestatyn ar 23 Hydref 2003 a chadarnhaodd fod themâu'r diwrnod yn adlewyrchu cyflwyniad Mrs. Bateman.

Eitem Rhif 7 - CYSAG Cymru – Newidiadau i Statws Athro/Athrawes Cymwysedig: Cadarnhaodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG ei fod wedi ysgrifennu at Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol yn tynnu sylw at bryderon CYSAG a'i fod wedi derbyn ymateb gan bawb ond dau aelod. Dosbarthwyd copi o'r llythyr a dderbyniodd gan Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, i'r aelodau yn y pwyllgor a thynnodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG sylw'r aelodau at y prif bwyntiau a oedd yn cwmpasu llawer o'r atebion a dderbyniwyd gan Aelodau Cynulliad eraill a oedd wedi mynd i'r afael â'r mater. Roedd yr aelodau'n falch o'r diddordeb a ddangoswyd gan yr Aelodau Cynulliad a gofynnodd y Cynghorydd W. Roberts am ddosbarthu'r ymatebion ysgrifenedig i'r aelodau gynted ag y bo modd yn y dyfodol.

Eitem Rhif 5 – Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG – Cynghorydd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG fod copïau o'r ddogfen derfynol ar gael i'r aelodau yn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD** derbyn y cofnodion.*

**1031 DADANSODDI ADRODDIADAU AROLYGIADAU YSGOL**

Cyflwynodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) am y sylwadau cadarnhaol a negyddol ynghylch Addysg Grefyddol a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion mewn saith ysgol a arolygwyd rhwng Chwefror 2003 a Tachwedd 2003 ynghyd â chefndir byr am bob ysgol.

Cynhaliwyd arolygiadau yn yr ysgolion isod:-

- Ysgol Mair (Ysgol Gatholig a gynorthwyir), Y Rhyl
- Ysgol Fabanod Llanelwy
- Ysgol Reoledig yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr
- Ysgol Bro Elwern, Gwyddelwern
- Ysgol Henllan
- Ysgol Bodfari
- Ysgol Dewi Sant, Y Rhyl

Darparodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG grynodeb i'r aelodau am y canfyddiadau'n gysylltiedig â phob ysgol, gan esbonio ac egluro materion penodol mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau. Roedd yn falch o adrodd fod y sylwadau cadarnhaol yn adroddiad pob ysgol yn llawer mwy niferus na'r sylwadau negyddol. Gofynnwyd i'r aelodau nodi os nad oedd ysgol wedi'i chynrychioli mewn categori benodol nid oedd yn golygu o angenrhaid bod diffyg yn y maes hwnnw ond yn hytrach na chyfeiriwyd ato yn yr adroddiad arolygiad. O ran Addysg Grefyddol, cynghorodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG nad oedd y canfyddiadau o ran Ysgol Mair wedi'u cynnwys oherwydd fod yr adroddiad Adran 23 wedi'i dderbyn yn rhy hwyr i'w gynnwys yn yr adroddiad.

Nododd y Cynghorydd W. Roberts fod gan ysgolion eu polisïau eu hunain yn ymdrin â hiliaeth a theimlai y byddai'n fuddiol i'r ysgolion ddilyn polisi'r awdurdod unedol ar hiliaeth. Credai'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG ei bod yn debygol fod yr ysgolion eisoes yn defnyddio polisi'r Awdurdod Unedol fel sail eu polisïau eu hunain ond cytunodd i fynd ar ôl hyn yn uniongyrchol ag ysgolion Sir Ddinbych.

Roedd yr aelodau wedi'u plesio â'r canfyddiadau cyffredinol yn yr adroddiad a chytunwyd y dylid llongyfarch yr ysgolion am yr agweddau cadarnhaol y tynnwyd sylw atynt gan yr arolygiad. Yn unol â hynny:-

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) derbyn a nodi'r adroddiad gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG, a*

*(b) bod yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG i ysgrifennu at yr ysgolion a arolygwyd i'w llongyfarch am yr agweddau cadarnhaol yn eu hadroddiadau a chynnig unrhyw wasanaeth o ran ymdrin ag unrhyw ddiffygion a materion allweddol.*

**1032 ADDYSG GREFYDDOL – CANLYNIADAU ARHOLIADAU 2003**

Cyflwynodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG dablau'n rhoi manylion am ganlyniadau arholiadau Astudiaethau Crefyddol yn 2002 a 2003 yn ysgolion uwchradd Sir Ddinbych (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) i'r aelodau eu hystyried. Ymddiheurodd am hwyrni'r data a dderbyniodd y diwrnod blaenorol a nododd fod gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau fod canlyniadau'n cael eu cyflwyno ymhen cyfnod rhesymol yn y dyfodol.

Aeth yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG ymlaen i arwain yr aelodau drwy'r canlyniadau yn fanwl, a gwnaed cymariaethau rhwng canlyniadau'r ddwy flynedd. Cyfeiriodd at y pwyntiau a ganlyn yn benodol:-

- Canlyniadau TGAU Pawb - Astudiaethau Crefyddol 2003 – roedd gostyngiad o wyth ymgeisydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a oedd yn cyd-fynd â gostyngiad mewn Astudiaethau Crefyddol yn genedlaethol; roedd cynnydd mawr yn y perfformiad gyda 1.8% below o dan y cyfartaledd cenedlaethol yn 2003 o'i gymharu â 8.2% y flwyddyn flaenorol; gobeithiwyd y byddai canlyniadau'r flwyddyn nesaf yn hafal i neu'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol;

- Canlyniadau TGAU Bechgyn - Astudiaethau Crefyddol – roedd gostyngiad o 17 o ymgeiswyr gyda'r perfformiad cyffredinol 6.4% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o'i gymharu â 12.7% y flwyddyn flaenorol; roedd y gwelliant yn y canlyniadau'n galonogol er gwaethaf y lleihad yn nifer yr ymgeiswyr;

- Canlyniadau TGAU Merched - Astudiaethau Crefyddol – cafwyd cynnydd o naw ymgeisydd ar y flwyddyn flaenorol gyda'r perfformiad yn gwella o 5% o dan y cyfartaledd cenedlaethol yn 2002 i 4.2% uwchben y cyfartaledd cenedlaethol yn 2003 gyda chynnydd cyffredinol yn y perfformiad o 11.9%;

- Addysg Grefyddol – Pawb (Cwrs Byr) – roedd y cwrs byr yn arbennig o boblogaidd a bellach roedd yn bosibl dilyn manyleb A a B fel cwrs llawn neu gwrs byr; roedd gostyngiad o chwe ymgeisydd a oedd yn groes i'r tueddiad ar i fyny yn genedlaethol; roedd y perfformiad 3.3% o dan y cyfartaledd cenedlaethol a oedd yn welliant ar ffigwr y flwyddyn ddiwethaf o 6% yn is, ac roedd hynny'n galonogol.

- Canlyniadau Safon Uwch – Pawb - Astudiaethau Crefyddol – prin iawn oedd yr ymgeiswyr Safon Uwch ac felly nid oedd ffigyrau canran yn arbennig o ddefnyddiol; roedd nifer yr ymgeiswyr wedi cynyddu o un ar bymtheg y flwyddyn flaenorol i 23; dim ond dau ohonynt oedd yn fechgyn ac roeddynt wedi cael gradd D gyda pherfformiad y merched wedi mynd i lawr o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond yn parhau'n 3% uwchben y cyfartaledd cenedlaethol, a

- Tystysgrif Cyflawniad Addysgol (a adwaenir fel Lefel Mynediad yn awr) – roedd gostyngiad mawr yn y cyfartaledd cenedlaethol gyda chanlyniadau Sir Ddinbych 8.3% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, a oedd yn welliant ar ganlyniadau'r flwyddyn flaenorol.

I gloi, cynghorodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG fod y canlyniadau'n dda yn gyffredinol a bod gwaith yn digwydd i annog gwella parhaus mewn ysgolion, yn cynnwys edrych ar ffyrdd o gynyddu perfformiad.

Roed yr aelodau'n falch fod y canlyniadau'n adlewyrchu'n dda ar y sir yn gyffredinol a llongyfarchasant yr ysgolion ar eu cyflawniadau.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a nodi canlyniadau arholiadau ysgolion Sir Ddinbych ar gyfer 2003.*

**1033 TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU (TGCh) AC ADDYSG GREFYDDOL**

Adroddodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG ar lafar fod Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CACC) wedi cyllido Grwp Rhwydwaith yn cynnwys pymtheg o athrawon o bedwar awdurdod (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Roedd y fenter wedi arwain at gynhyrchu CD-Rom a oedd yn cynnwys amrediad eang o weithgareddau ac adnoddau i athrawon i'w defnyddio wrth gyflwyno AG yn y pedwar cyfnod allweddol. Roedd yr athrawon fu'n ymwneud â'r broses wedi elwa'n fawr o'r profiad ac roeddynt wedi mwynhau dysgu oddi wrth ei gilydd. Fel rhan o'r prosiect roedd y Grwp wedi

cysylltu â'r United Jewish Israel Appeal a oedd wedi darparu 500 copi (120 o gopïau i Sir Ddinbych) o CD yn dwyn y teitl "Living Jewish - An interactive guide to Jewish life" am ddim, a fyddai'n cael ei ddosbarthu yr un pryd â CD-Rom y Grwp Rhwydwaith i ysgolion y tymor nesaf.

Roedd yr aelodau wrth eu boddau â'r deunyddiau sy'n cael ei anfon i'r ysgolion i ymestyn gwaith y CYSAG ond nodwyd, er bod y CD 'Living Jewish' wedi'i ddarparu am ddim, roedd y sefydliad yn derbyn cyfraniadau a theimlai'r aelodau y dylai Sir Ddinbych gynnig rhywfaint o arian am y fraint o allu darparu deunyddiau am ddim i ysgolion. Ar ôl ystyried y mater teimlai'r aelodau y byddai'n briodol cynnig cyfraniad o £120 i'r United Jewish Israel Appeal ar sail £1 am bod CD a ddarparwyd i ysgolion Sir Ddinbych ac yn dilyn hynny:-

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) derbyn a nodi adroddiad ar lafar yr Arolygwr/Ymgynghorydd AGar waith y Grwp Rhwydwaith Traws-sirol a gyllidwyd gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, a*

*(b) gofyn i'r cyngor gynnig cyfraniad o £120 i'r United Jewish Israel Appeal i ddangos gwerthfawrogiad am y cryno ddisgiau am ddim a roddwyd i'w dosbarthu i ysgolion Sir Ddinbych.*

Mewn ymateb i gais gan y Cadeirydd, cytunodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG i ddarparu manylion am gynnwys y CD-Rom a gynhyrchwyd gan y Grwp Rhwydwaith Traws-sirol CACC.

**1034 MANYLEB BAGLORIAETH CYMRU**

Cyflwynodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG gyflwyniad PowerPoint ar fanyleb Bagloriaeth Cymru. Cyflwynwyd cyflwyniad tebyg yng nghyfarfod CYSAG Cymru gan Mr. Richard Carter o Gyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) ac roedd copïau o sleidiau'r cyflwyniad ar gael i'r aelodau yn y cyfarfod. Roedd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG wedi ychwanegu'r pryderon a fynegwyd gan CYSAG Cymru i'w gyflwyniad.

Darparodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG grynodeb o Fagloriaeth Cymru i'r aelodau, gan amlinellu'r gofynion a chynnwys y cwricwlwm i ddisgyblion gyflawni'r cymhwyster, yn cynnwys ei nodau; prif nodweddion; strwythur; sgiliau allweddol ac addysg gysylltiedig â gwaith. Roedd un o'r adrannau'n cwmpasu addysg bersonol a chymdeithasol ac roedd Mr. Carter wedi tynnu sylw at gysylltiadau Addysg Grefyddol posibl yn y meini prawf. Serch hynny, ni chyfeiriwyd at AG yn unrhyw le yn y ddogfen ac nid oedd unrhyw arwyddion o lle y gellid datblygu AG. Yn unol â hynny roedd CYSAG Cymru wedi gofyn i bwyllgorau CYSAG ysgrifennu at CBAC i fynegi eu pryder am y mater hwn a gofyn, pan fo'r cynllun peilot yn dod i derfyn a'r Fagloriaeth yn cael ei hadolygu, fod yr hepgoriad hwn yn cael ei gywiro.

Roedd Mrs. M.B. Lloyd, Cadeirydd CYSAG Cymru, yn meddwl fod Bagloriaeth Cymru yn gyfle gwycho ond yn gyfle wedi'i gollig o ran AG ac anogodd yr aelodau i fynd ar ôl y mater ag unigolion a sefydliadau eraill.

Adroddodd y Cadeirydd y byddai Jane Davidson, AC, yn agor yr estyniad yn Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun ar 1 Mawrth 2004 ac y byddai'n rhoi cyflwyniad ar fanyleb Bagloriaeth Cymru a theimlai y byddai hwn yn gyfle rhagorol i'r aelodau drafod y mater hwn yn uniongyrchol â'r Gweinidog.

Roedd yr aelodau wedi siomi'n arw nad oedd AG yn cael ei grybwyll ym manyleb Bagloriaeth Cymru a chytunasant i fynd ar ôl y mater â'u sefydliadau lleol a chynghorau eglwysig.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) derbyn a nodi'r cyflwyniad at Fanyleb Bagloriaeth Cymru ynghyd â'r pryderon a fynegwyd gan CYSAG Cymru,*

*(b) anfon llythyr at Mr. Keith Davies, CBAC a Gweinidog y Cynulliad dros Addysg yn mynegi pryderon dybryd CYSAG ynghylch y diffyg cyfeirio at AG ym Manyldeb Bagloriaeth Cymru, ac*

*(c) anfon copi o sylwadau CYSAG at Mr. Richard Carter, CBAC ac Aelodau Cynulliad ac Aelodau Senedlaethol Sir Ddinbych.*

**1035 CYMDEITHAS CYSAG CYMRU**

**(a) CYSAG Cymru – 11 Tachwedd 2003 yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd**

Cyflwynodd Mrs. M.B. Lloyd, Cadeirydd CYSAG Cymru, adroddiad llafar ar y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2003 yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, fel a ganlyn:-

- arwyddocad arbennig y diwrnod yn dechrau am 11.00 a.m. ar 11 Tachwedd;

- cyflwyniad gan Mr. Richard Carter, CBAC ar Fagloriaeth Cymru (fel a gyflwynwyd gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG yn gynharach ar yr agenda);

- cyflwyniad gan Ruth Garnault, Cyfarwyddwr Ymchwilio'r Celfyddau, ynghylch Canolfan Mileniwm Cymru a oedd wedi bod yn ddiddorol iawn, gyda Ms. Garnault yn gofyn am awgrymiadau sut i gynnwys cyfleoedd AG yn y Pecyn Addysg i ysgolion; byddai cyfarfod dilynol â Ms. Garnault yn cael ei gynnal ar 3 Mawrth i drafod Addysg yng Nghanolfan y Mileniwm, a

- cyflwyniad gan Arolygwr ei Mawrhydi Paul Morgan yn darparu diweddariad ar y safonau mewn AG ar draws y cyfnodau allweddol (a fyddai'n cael ei gyflwyno gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG yn ddiweddarach ar yr agenda).

I glo dywedodd Mrs. Lloyd y byddai cyfarfod nesaf CYSAG Cymru yn cael ei gynnal ar 5 Mawrth 2004 yn Neuadd y Sir, Aberaeron.

Diolchodd y Cadeirydd i Mrs. Lloyd am ei hadroddiad a diolchodd am ei gwaith caled ar CYSAG Cymru.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad llafar gan Mrs. M.B. Lloyd.*

**(b) Safonau fel yr adroddiad gan AEM Paul Morgan**

Cyflwynodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG gyflwyniad PowerPoint yn darparu dadansoddiad ystadegol o'r safonau a gyflawnwyd mewn AG rhwng 1997 - 2003 ar draws y cyfnodau allweddol. Cyflwynwyd cyflwyniad tebyg yng nghyfarfod CYSAG Cymru gan AEM Paul Morgan ac roedd copïau o sleidiau'r cyflwyniad ar gael i'r aelodau yn y cyfarfod.

Cyflwynodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG y safonau cyrhaeddiad AG ymhob cyfnod allweddol; cymariaethau â phynciau eraill ynghyd â safonau mewn agweddau o AG. Cyfeiriwyd hefyd at y newidiadau yn y trefniadau arolygu. Byddai'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol, 10% o ysgolion yn cael arolygiad llawn a 5% yn cael arolygiad byr. Byddai arolygwyr yn edrych ar wybodaeth yn gysylltiedig â phynciau, yn benodol y tri ar y brig a'r tri ar y gwaelod.

Adroddodd Mrs. M.B. Lloyd am gyfarfod diweddar Fforwm Estyn lle derbyniwyd cyflwyniadau gan dair ysgolion a oedd yn cymryd rhan mewn cynllun peilot i dreialu'r trefniadau newydd. Nododd Mrs. Lloyd ei bod wedi codi'r mater, gan mai dim ond y tri phwnc ar y brig a'r tri ar y gwaelod oedd yn cael eu targedu'n benodol, mae'n bosibl na fyddai'r data i alluogi CYSAG i fonitro safonau mewn AG ar gael. Roedd Susan Lewis, Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, wedi darparu peth sicrwydd y byddai'r holl bynciau'n cael rhyw ffurf o arolygiad.

Cadarnhaodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG fod AALl Sir Ddinbych wedi cytuno y dylai edrych ar ddarpariaeth AG mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd sy'n eu bwydo. Roedd rhaglen yn cwmpasu cyfnod pum mlynedd wedi'i llunio a fyddai'n galluogi CYSAG i nodi'r cryfderau a'r gwendidau mewn AG. Byddai'r rhaglen yn hyblyg ac yn cael ei hamrywio i ryw raddau gan asesiadau risg a gyflawnir gan yr AALl. Tra'n cydnabod y gwaith ychwanegol i'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG roedd yr aelodau'n falch fod yr AALl wedi cytuno i ysgwyddo'r cyfrifoldeb ychwanegol hwn.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a nodi'r cyflwyniad gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG.*

**(c) Prosiect CYSAG Cymru/NAFRE/Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu drwy Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru**

Rhoddodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG adroddiad llafar ar gyfarfod rhwng cynrychiolwyr CYSAG Cymru a NAPfRE â'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu ac roedd yn falch o gyhoeddi y byddai Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn ariannu prosiect o weithgorau i gynhyrchu amrediad o ddeunyddiau AG ar draws y cyfnodau allweddol y gellid eu rhoi ar y wefan. Byddai'r prosiect yn mynd rhagddi dros y flwyddyn nesaf.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y gwaith rhagorol a oedd yn cael ei wneud a thalodd deyrnged arbennig i'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG a Mrs. M.B. Lloyd, Cadeirydd CYSAG Cymru, am eu cyfraniadau gwerthfawr.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a nodi'r adroddiad llafar gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG.*

**1036 CHRISTIAN RELIEF UGANDA**

(Cafodd yr eitem hon ei hystyried fel mater brys, wedi i'r Cadeirydd roi rhybudd o hynny ar ddechrau'r cyfarfod).

Adroddodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG am ei daith i Uganda ym mis Mawrth, a oedd yn rhannol gysylltiedig â'i waith ond hefyd drwy'r elusen Christian Relief Uganda byddai'n golygu ei fod ef ac athrawon eraill yn ymweld ag ysgolion a chymunedau. Byddai cysylltiadau'n cael eu llunio ag ysgolion penodol a byddai dulliau addysgu a strategaethau cymunedol yn cael eu rhannu a'u trafod. Byddai anrhegion ac adnoddau'n cael eu rhannu hefyd ac roedd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG wedi'i synnu gan haelinio unigolion ac ysgolion yn darparu adnoddau ariannol a nwyddau i'w cludo yno.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y gwaith gwerthfawr roedd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG yn ei wneud a dymunodd y gorau iddo am daith ddiogel a buddiol.

**1037 ENWEBU CYNRYCHIOLWYR I'W HETHOL I BWYLLGOR GWAITH CYSAG CYMRU**

(Cafodd yr eitem hon ei hystyried fel mater brys, wedi i'r Cadeirydd roi rhybudd o hynny ar ddechrau'r cyfarfod).

Adroddodd Mrs. M.B. Lloyd, Cadeirydd CYSAG Cymru, am newidiadau aelodaeth i Bwyllgor Gwaith y Gymdeithas ac, yn unol â'r cyfansoddiad, roeddynt yn gofyn am enwebiadau gan bob CYSAG ar gyfer Is-gadeirydd yn ogystal ag aelodau i weithredu ar y Pwyllgor Gwaith. Nodwyd fod rhaid cyflwyno'r enwebiadau erbyn 1 Mawrth 2004. Ar ôl trafodaeth fer:-

***PENDERFYNWYD*** *enwebu Mr. Gavin Craigen, Arolygwr/Ymgynghorydd AG ar gyfer rôl yr Is-gadeirydd ac enwebu'r Cynghorydd M.M. Jones, Cadeirydd CYSAG Sir Ddinbych, i weithredu fel aelod ar Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAG Cymru.*

Wrth gloi'r cyfarfod diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG a Chlerc CYSAG am eu gwaith caled a diolchodd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod a'u cyfraniadau gwerthfawr i'r drafodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 p.m.

******